**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (41)**

**Dydd Mawrth, 15 Ionawr 2002**

# AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Datganiad Busnes: Trefnydd y Cynulliad**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 3**
**Cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig i Awdurdodau Lleol yr effeithir arnynt gan sylweddau sy'n gwanhau'r haen osôn**
*NDM916* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan Adran 88B o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 21) (Cymru) 2001 Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Ionawr 2002.

Cliciwch yma i weld Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 21) (Cymru) 2001 Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) - Ar gael yn Saesneg yn unig

**Eitem 4**
**Cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 9 ar Blant sy'n Ceisio Lloches ar eu Pennau eu Hunain**
*NDM917* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan Adran 88B o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 9) (Cymru) 2001 Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Ionawr 2002.

Cliciwch yma i weld y Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 9) (Cymru) 2001 - Ar gael yn Saesneg yn unig

**Eitem 5**

**Dadl ar Strategaeth Gofal Sylfaenol**

*NDM915* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu'r ymarfer ymgynghori ar "Wella Iechyd yng Nghymru – Dyfodol Gofal Sylfaenol", a ddaeth i ben yn ddiweddar.

2. Yn edrych ymlaen at gael Cynllun Gweithredu, cyn mis Ebrill 2002, a fydd yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn anelu at:-

A) Wrthdroi'r tanddatblygu a fu ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf;

B) Gwella ystod ac ansawdd y gofal a ddarperir gan wasanaethau gofal iechyd sylfaenol, a sicrhau eu bod o fewn cyrraedd mwy hwylus;

C) Gwrthdroi anghydraddoldeb o ran y gwasanaethau a ddarperir, a hynny trwy fuddsoddiad wedi'i dargedu a thrwy ddatblygu gwasanaethau;

D) Buddsoddi mewn recriwtio, addysgu, hyfforddi a chadw gweithwyr iechyd proffesiynol, ac mewn datblygu'r tîm gofal sylfaenol;

E) Gwella adeiladau meddygfeydd a darparu canolfannau adnoddau ac offer er mwyn ehangu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned;

F) Datblygu dysgu ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan ategu hynny trwy wella ymchwil a datblygu yn yr NHS.

Mae'r adroddiad "Gwella Iechyd yng Nghymru – Dyfodol Gofal Sylfaenol", ar gael ar wefan Gwella Iechyd yng Nghymru ar:- http://www.wales.gov.uk/healthplanonline/workinggroups/content/primcare_e.pdf - Ar gael yn Saesneg yn unig - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol*

(1)+(3)+(5)+(6)+(8)+(9)
(2) +(4)+(7)+(10)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1 dileu "croeaswu'r" a gosod "nodi'r" yn ei le.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt un, gosod "nodi'r" yn lle "croesawu'r".

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu dau llinell gyntaf Pwynt 2 a gosod y canlynol yn ei le:

"Yn nodi bod ystadegau iechyd yn dangos bod y trefniadau cyllido presennol yn fethiant i bobl Cymru ac yn edrych ymlaen at drafod Cynllun Gweithredu cyn mis Ebrill 2002 a fydd yn troi amcanion arwyddocaol a gwerthfawr "Gwella Iechyd yng Nghymru – Dyfodol Gofal Sylfaenol" yn rhaglen benodol o ymrwymiadau mesuradwy sydd â chyllid digonol a chynaliadwy yn gysylltiedig â hwy.

Drwy hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at:"

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt 2, dileu pwynt A) a gosod y canlynol yn ei le: "A) Adeiladu ar y gwelliannau mewn gofal iechyd sylfaenol dros yr 20 mlynedd diwethaf."

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu'r canlynol ym mhwynt 2B ar ôl 'mwy hwylus':

". Bydd hyn yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu proses cynllunio gweithlu sy'n parchu'r amseroedd ymgynghori a argymhellwyd ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd a fydd yn datblygu ansawdd yn ogystal â hygyrchedd y proffesiwn gofal iechyd"

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu'r canlynol ym mhwynt 2C ar ôl 'ddatblygu gwasanaethau':

". Bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid targedu ardaloedd penodol yn ogystal â meysydd gwasanaeth sy'n peri pryder. Bydd y mesurau'n cynnwys cynyddu nifer a hygyrchedd gweithwyr proffesiynol iechyd a darparu cyllid tymor hir cyson ar gyfer ymyriadau iechyd cymunedol"

**Gwelliant 7 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ar ddiwedd pwynt D) ychwanegu "a phennu targedau ar gyfer nifer yr Ymarferwyr Cyffredinol, nyrsys practisau a staff NHS allweddol eraill ychwanegol a fydd yn cael eu cyflogi yn NHS Cymru."

**Gwelliant 8 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

"Yn ymestyn darpariaeth ddeintyddol yr NHS a datblygu Strategaeth Ddeintyddol NHS unigryw sy'n mynd i'r afael â'r broblem ddifrifol o fynediad annigonol at Wasanaethau Deintyddol yr NHS ledled Cymru."

**Gwelliant 9 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

"Yn cydnabod rôl sylfaenol y Proffesiynau sy'n Gysylltiedig â Meddygaeth mewn Gofal Sylfaenol ac ymrwymo'i hun i ddatblygu llwybrau gyrfa cynyddol a fydd yn gwella cyfraddau recriwtio a chadw staff ac yn gwella ansawdd ac amrediad y gwasanaethau iechyd a ddarperir gan y darpar Dîm Gofal Sylfaenol yn sylweddol."

**Gwelliant 10 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu fel pwynt 3 ar ddiwedd y cynnig, "Yn nodi y bydd y newidiadau strwythurol arfaethedig i NHS Cymru yn llesteirio'r posibilrwydd o unrhyw welliannau i wasanaethau gofal iechyd sylfaenol yng Nghymru."

**Eitem 6**
**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn adrodd yn ôl ar y Mesur Digartrefedd y cyfeiriwyd ato yn araith y Frenhines**
*NDM918* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y Mesur Digartrefedd, a gyfeiriwyd at y Pwyllgor trwy benderfyniad yn y cyfarfod llawn yn ystod y ddadl ar Araith y Frenhines ar 6 Tachwedd 2001, ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Rhagfyr 2001.

Cliciwch yma i weld y Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y Mesur Digartrefedd - Ar gael yn Saesneg yn unig

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 17 Ionawr 2002**

**E P Silk**

Clerc y Cynulliad